

ADRODDIAD I: PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU (TROSEDD AC ANHREFN)
AWDURDOD LLEOL GWYNEDD

DYDDIAD: 13/01/2022

ADRODDIAD GAN: Y CYNGHORYDD DAFYDD MEURIG
(SWYDDOG CEFNOGI - DARON OWENS/MANNON TRAPPE)

PWNC: DIWEDDARIAD BLYNYDDOL GAN Y BARTNERIAETH
DIOGELWCH CYMUNEDOL (GWYNEDD A MÔN)

1.00	PWRPAS YR ADRODDIAD
1.01	Rhoi trosolwg i Aelodau o weithgareddau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) Gwynedd a Môn yn ystod 2020-21, a'r datblygiadau ar gyfer 2021-22.
2.00	CEFNDIR
2.01	<p>Mae gofyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol adrodd yn ffurfiol i'r pwyllgor hwn bob blwyddyn er mwyn cyflwyno trosolwg o weithgareddau. Mae hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hymrwymadau yn unol ag adrannau 19 a 20, Deddf Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2006.</p> <p>Dyletswydd y pwyllgor yw craffu ar waith y Bartneriaeth, yn hytrach na gwaith yr aelodau (cyrff) unigol.</p>
2.02	<p>Mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, a'r diwygiadau dilynol yn sgil Deddf Heddlu a Chyfiawnder Troseddol yn 2002 a 2006 i weithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân ac Achub, i ymdrin â'r rhaglen diogelwch cymunedol leol. Dyma'r prif asiantaethau sy'n ffurfio'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.</p> <p>Yn wreiddiol, gelwid partneriaethau diogelwch cymunedol yn bartneriaethau trosedd ac anhrefn, ac er bod yr enw wedi'i newid, yr un yw'r meysydd neu'r cyfrifoldebau, ac maent yn parhau fel a ganlyn -</p> <ul style="list-style-type: none">• Trosedd ac Anhrefn• Camddefnyddio Sylweddau• Lleihau Aildroseddu• Cyflwyno asesiad strategol i adnabod blaenoriaethau (gwaith sydd bellach yn cael ei wneud yn rhanbarthol)• Rhoi cynlluniau ar waith i ymdrin â'r blaenoriaethau hyn (mae cynllun bellach yn bodoli ar sail ranbarthol a lleol)

2.03

- Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi bod yn ei lle am 22 mlynedd bellach, fel partneriaeth rhwng dwy sir. Mae'r newidiadau y mae'r bartneriaeth wedi'u hwynebu dros y blynyddoedd wedi bod yn niferus. Yn wir, gellid dweud nad oes unrhyw debygrwydd rhwng y dirwedd erbyn heddiw a'r hyn a fodolai ym 1998, pan ddaeth PDC yn ofyniad statudol.
- Fodd bynnag, nid yw ymrwymiad ac ymgysylltiad ein holl bartneriaid wedi newid o gwbl dros y cyfnod hwn. Mae presenoldeb bob amser yn dda mewn cyfarfodydd chwarterol, ac nid oes un cyfarfod wedi cael ei ganslo mewn dros 20 mlynedd - hyd nes y cyfyngiadau COVID-19 diweddar wrth gwrs.
- Mae'r partneriaid a'r aelodau lleol sy'n mynychu'r cyfarfodydd yn gwneud cyfraniad positif, ac mae'r data chwarterol ar ffigyrau trosedd a chyflwyno cynlluniau yn cael eu rhannu ymhob cyfarfod.
- Mae pob aelod cyfrifol o'r bartneriaeth yn cyfrannu'n ariannol er mwyn cyflogi dadansoddwr y bartneriaeth, fel bod modd cyflenwi data rheolaidd a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Mae gweithio rhwng partneriaid yn allweddol i ddiogelwch cymunedol. Y prif reswm am gyflwyno'r PDC ym 1998, oedd i sicrhau bod trosedd ac anhrefn yn cael ei ystyried yn broblem i bawb ac nid yr Heddlu yn unig. Ni fu'r cydweithio rhwng partneriaid allweddol, o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, erioed mor gryf. Bellach, ceir enghreifftiau di-ri o'r cydweithio hwn fel sefydliadau, sy'n digwydd yn ddyddiol ac yn naturiol erbyn hyn. Fodd bynnag, ni allwn fodloni fel ag yr ydym, ac mae cynlluniau presennol yn parhau i gynnwys bwriad i symud tuag at fwy fyth o gydweithio.
- Mae rhai o'r prif newidiadau y mae'r bartneriaeth wedi'u hwynebu ac y mae'n eu hwynebu ar hyn o bryd, wedi'u rhestru isod.
 - Colli grantiau lleol - mae'r holl grantiau, yr oedd y bartneriaeth yn arfer eu derbyn naill ai wedi dod i ben, neu wedi mynd yn grant rhanbarthol sy'n cael ei reoli ar lefel gogledd Cymru gyfan. Fodd bynnag, drwy sicrhau ein bod yn chwarae ein rhan yn y strwythur rhanbarthol, mae arian yn parhau i gael ei ddiogelu, gan gynnwys cyllid ychwanegol dros y 18 mis diwethaf ar gyfer Trais Domestig/Trais rhywiol a chamddefnyddio sylweddau, yng Ngwynedd a Môn.
 - Colli cydlynwyr lleol - mae rhai swyddi wedi cael eu colli yn sgil arian yn cael ei dynnu yn ôl, mae eraill wedi mynd yn adnodd rhanbarthol. Fodd bynnag, drwy gynnal aelodaeth glos a phwrpasol ar y grwpiau rhanbarthol, rydym yn hyderus fod yr anghenion lleol yn cael eu hymgorffori yn yr holl gynlluniau a gweithgareddau rhanbarthol.
 - Y prif heriau yr ydym ni oll yn eu hwynebu wrth gwrs, yw'r newid mewn troseddgarwch yn ein cymunedau heddiw. **Er bod Gwynedd ac Ynys Môn ymysg y llefydd mwyaf diogel i fyw**, rydym yn wynebu

	<p>yr un problemau â holl ardaloedd eraill y Deyrnas Gyfunol. Mae trosedd erbyn hyn yn rhywbeth pellgyrhaeddol a chymhleth, gyda'r defnydd a wneir o dechnoleg yn galluogi lefel o drosedd gamfanteisiol (<i>exploitative</i>), ac fe ellir dadlau bod hyn yn rhywbeth hollol newydd. Mae gangiau trosedd cyfundrefnol (OCGs) yn bodoli ledled y Deyrnas Gyfunol, ac mae'r mwyafrif ohonynt ynghlwm â throseddau sy'n ymwneud â chyffuriau. Mae'r gangiau yma'n cael eu hadnabod fel gangiau llinellau cyffuriau (<i>county lines</i>) ac maent wedi bod yn destun llawer o weithgarwch ymatebol yng ngogledd Cymru.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Yn ystod 2019-20, arweiniodd gogledd Cymru ar asesiad anghenion rhanbarthol ar linellau cyffuriau, gan ddod â sefydliadau ledled y rhanbarth at ei gilydd (bu i bron i 200 o bobl fynychu un cyfarfod), ac o hynny, datblygwyd cynllun ymateb rhanbarthol, sydd bellach yn esblygu i fod yn weithgarwch lleol. Yn yr un cyfnod (sy'n parhau) mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cynnal nifer o gyrchoedd gorfodaeth llinellau cyffuriau, sydd wedi cael effaith fawr ar weithgarwch y gangiau troseddol yn yr ardal. • Ers datblygu'r bartneriaeth statudol hon dan Ddeddf 1998, mae'r cydweithio rhwng y sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector amrywiol wedi newid yn ddrmatig. Nid yw'r ffaith bod rhai o'r partneriaid cyfrifol wedi'u datganoli, ac eraill ddim, a'r ffaith bod rhai meysydd gwaith dan arweiniad Llywodraeth Cymru, ac eraill dan arweiniad Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol, wedi llesteirio cynnydd y cydweithio, ac fel y nodwyd eisoes, mae hyn bellach wedi'i ymgorffori yn rhan o'r arferion gwaith dyddiol.
3.00	BLAENORIAETHAU/DOGFENNAU'R BARTNERIAETH AR GYFER CRAFFU
3.01	<p>Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n unol â chynllun blynyddol, sy'n seiliedig ar gynllun rhanbarthol tair blynedd.</p> <p>Wedi'u hatodi -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Partneriaeth Blynyddol 2020-21 - yn dangos sefyllfa diwedd blwyddyn yr holl gamau gweithredu. • Y cynllun blynyddol presennol ar gyfer 2021-22 sydd wedi bod yn ei le ers mis Ebrill eleni.
3.02	<p>Bu i saith maes blaenoriaeth lywio gwaith y bartneriaeth yn ystod 2021-22. Roedd y blaenoriaethau hyn yn seiliedig ar asesiad strategol. Roedd rhain fel a ganlyn -</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Troseddu Meddiangar 2. Ymddygiad gwrthgymdeithasol 3. Dioddefwyr sy'n Fregus 4. Trais Domestig 5. Troseddau Rhywiol 6. Camddefnyddio Sylweddau 7. Lleihau Aildroseddu

4.00 TROSOLWG O'R CYFRADDAU TROSEDDU DROS Y CYFNOD ADRODD

Cefndir:

- Wrth fesur lefelau trosedd, mae'n bwysig bod gennym sail ar gyfer cofnodi, sy'n ein galluogi i gymharu a chael persbectif. Mae'r Swyddfa Gartref (HO) yn monitro lefelau trosedd ar draws pob llu Heddlu yn y Deyrnas Gyfunol. Un o'r paramedrau sy'n cael eu defnyddio ganddynt i gynnal trosolwg yw math o gynghrair cymharu, o'r enw *most similar groups* (MSG). Mae'r HO yn creu grwpiau o Siroedd, lle mae'r demograffi yn debyg, fel y byddai disgwyl i'r lefelau trosedd fod yn debyg iawn hefyd.
- Mae'r ddwy Sir yn amrywio o ran y cyfartaledd ar gyfer ein MSG - gydag amrywiadau yn cael eu dadansoddi ymhellach, pan maent ac wrth iddynt ddigwydd.
- Mae'r Heddlu yn edrych ar ffigyrau trosedd yn barhaus, ac yn adolygu'r holl newidiadau ar sail rhanbarthol a lleol. Mae unrhyw newidiadau sylweddol yn agored i ddadansoddiad pellach. Yna, bydd unrhyw feysydd problemus yn cael eu hadolygu, gyda chynlluniau Heddlu yn cael eu rhoi yn eu lle i dacio'r problemau. Mae'r dulliau heddlu lleol yn cynnwys rhoi adnoddau ar waith yn ddyddiol i dacio problemau wrth iddynt godi.
- Mae'r Bartneriaeth yn derbyn data ar lefelau trosedd yn chwarterol, a'r dulliau 'mwy meddal' neu hirdymor o dacio tueddiadau trosedd fydd yn rhoi'r sail i gynllun y bartneriaeth. (Yn ystod y cyfnod clo, derbyniwyd data yn fisol.) Mae'r data yr ydym yn ei ddefnyddio yn gyffredinol, yn gymhariaeth rhwng y cyfnod yn y flwyddyn gyffredol, a'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.
- Mae dyletswydd statudol ar y Bartneriaeth i ymateb i asesiad strategol o dueddiadau trosedd, a chynllunio cynllun yn seiliedig ar yr asesiadau hyn. Ar hyn o bryd, mae'r asesiad yn cael ei wneud ar lefel ranbarthol. Derbyniwyd yr Asesiad diweddaraf ym mis Mawrth 2021, rydym yn disgwyl fersiwn wedi'i diweddarau yn gynnar yn 2022.

2020-21:

- Yn ystod cyfnod cynnar y flwyddyn ddiwethaf, oherwydd y sefyllfa gyda'r cyfnod clo, fe wnaeth yr holl droseddau a adroddwyd i'r Heddlu ostwng mewn nifer. Wrth gwrs, roedd hyn yn wir ar draws y wlad. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf sylweddol mewn troseddu meddiangar o bob math, a throseddau treisgar. Ar ôl codi'r cyfyngiadau Covid, deallir bod troseddau yn gyffredinol wedi codi'n raddol yn ôl i'r niferoedd cyn y cyfnod clo, ond nid yw hyn yn wir am bob un.
- Dau faes lle rydym yn gweld y niferoedd yn cynyddu yw stelcio ac aflonyddu, a throseddau casineb. Mae dadansoddiad pellach wedi dangos bod y cynnydd mewn stelcio ac aflonyddu yn bennaf oherwydd bod troseddau rheoli drwy orfodaeth (*coercive control*) yn cael eu cofnodi yn y categori aflonyddu erbyn hyn, a hefyd oherwydd y cynnydd mewn adroddiadau o

aflonyddu sy'n digwydd ar gyfryngau cymdeithasol a thrwy apiau negeseuon. Yn yr un modd, mae'r cynnydd mewn troseddau casineb (er bod y niferoedd yma yn isel iawn) yn ymwneud yn bennaf â thensiynau rhwng unigolion sy'n arwain at gamdriniaeth eiriol - yn anffodus mae hyn i'w weld drwy'r Wlad wrth i symudiad pobl yn ystod cyfyngiadau Covid greu drwgdeimlad. Mae'r Heddlu'n ymateb i bob adroddiad o drosedd casineb ac yn ymchwilio'n llawn iddynt. Roedd y diffiniad cenedlaethol o drosedd casineb, fel y'i defnyddir gan yr Heddlu, yn cynnwys gwahaniaethu yn sgil hil person, gan gynnwys gwledydd yn y Deyrnas Gyfunol, h.y. Cymry/Saeson, felly dyma sut y cafodd digwyddiadau o'r fath eu cofnodi.

- Mae'r holl achosion ailadroddus o drais domestig yn cael eu cofnodi drwy MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol), i sicrhau bod camau amlasiantaethol priodol yn cael eu cymryd. Gwelodd Gwynedd dwf mewn niferoedd achosion dros yr haf 2020, sy'n cyd-fynd â'r adeg pan laciwyd y cyfyngiadau COVID-19. Yna, bu i nifer yr achosion ostwng yn eithaf sydyn yn y ddwy ardal ym misoedd yr hydref a'r gaeaf.

2021-22:

- Mae Adran Onyx Heddlu Gogledd Cymru yn ymdrin â diogelu dioddefwyr Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE), ac mae gan bob un ohonynt gynlluniau partneriaeth diogelu. Ni fu iddynt weld unrhyw newidiadau yn nifer y dioddefwyr CSE yn ystod chwarter 1 2021/22 na thrwy gyfnod y pandemig COVID-19, gyda'r niferoedd yn parhau i fod yn bur sefydlog.
- Mae Trais Domestig yn parhau i fod yn broblem ac yn flaenoriaeth leol i Fôn a Gwynedd, gyda ffocws cynyddol ar ddiogelu, craffu ar safonau ymchwilio, lleihau llinellau amser ymchwiliadau ar y cyd â Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) a chael gwell deilliannau i ddioddefwyr. Mae Trais Domestig yn cyfrif am oddeutu 20% o gyfanswm troseddau yn ardal y Gorllewin.
- Bu i ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB) yng Ngwynedd gynyddu yn hanner cyntaf 2021/22, yn unol â'r cynnydd a welwyd ar draws ardal y llu heddlu. Yn genedlaethol, gwelwyd cynnydd amlwg mewn ASB cysylltiedig â phobl ifanc ers diwedd y cyfnod clo ac mae cynnydd tebyg wedi'i nodi yn y grwpiau tasg amlasiantaethol ASB misol ledled gogledd Cymru.
- Ar ddiwedd yr haf, derbyniom adroddiadau fod problemau gydag unigolion yn yfed yn gyhoeddus ac yn achosi ASB ym Mangor, gan arwain at bryderon gan fusnesau yn y cyffiniau. Fel ymateb, daethpwyd â thasglu amlasiantaethol ynghyd i edrych ar sut i fynd ati i wella'r sefyllfa, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Tai, Heddlu a'r Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau. Adroddodd yr Heddlu fod patrolau rheolaidd yn cael eu cynnal, a'u bod wedi ymgysylltu â'r unigolion oedd yn barod i waredu'r alcohol wrth iddynt gael eu herio. Bu i ni ganfod bod nifer y cwynion yn cwmpo i ddim gyda dyfodiad misoedd yr hydref a'r gaeaf. Fodd bynnag, rydym yn cynllunio ar gyfer y gwanwyn, a bydd y gwaith hwn yn parhau.
- Yn ystod y flwyddyn hon, tynnwyd sylw at droseddau twyll a sgamiau. Yn genedlaethol, gwelwyd cynnydd sylweddol yn y mathau hyn o droseddau,

	<p>ond mae hwn yn parhau'n faes sy'n cael ei dan-adrodd yn fawr, a hynny am nifer o resymau. Derbyniodd y Bartneriaeth gyflwyniad gan yr Heddlu, er mwyn egluro'r broses adrodd a rôl Action Fraud. Hefyd, penderfynwyd y byddai sesiynau hyfforddi ar gael i staff sy'n gweithio â phobl fregus, er mwyn cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth yn ehangach.</p>
5.00	GWAITH YN YSTOD 2020-21
5.01	<ul style="list-style-type: none"> • Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019-20, cynhaliodd y bartneriaeth weithdy, i ddechrau ar y gwaith o gynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cynhaliwyd hwn ym mis Chwefror, a dyma oedd y cyfarfod ffisegol diwethaf rhwng partneriaid yn lleol, cyn i'r cyfnod clo ddechrau ym mis Mawrth 2020. Er bod llawer wedi newid o ran arferion gweithio yn ystod mis Mawrth, ac ymlaen i fis Ebrill, llwyddom i lunio cynllun gweithredu allan o weithgarwch y gweithdy, a hynny erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol. • Canslodd y bartneriaeth y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer mis Ebrill, ac yn hytrach, cylchredwyd LOG - gan gynnwys y ffigyrau trosedd ar gyfer y cyfnod, a'r holl bapurau a materion eraill oedd angen sylw gan yr aelodau. Ailgychwynnodd cyfarfodydd y bartneriaeth ym mis Gorffennaf, gan ddefnyddio dulliau rhithiol. • Mae cynllun 2020-21, sydd wedi'i atodi, yn crynhoi mwyafrif y gweithgarwch ychwanegol yr oedd y bartneriaeth yn dymuno ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol honno. Cwblhawyd mwyafrif y gweithgarwch, ac fe adroddwyd ar hyn yn chwarterol i'r PDC, fel bod modd dod i gytundeb ar unrhyw weithgarwch adfer, os oedd angen. Hefyd, roedd ffigyrau trosedd yn cael eu rhannu yn chwarterol, fel bod modd trafod unrhyw weithgarwch ychwanegol. • Ni fydd yn eich synnu bod rhai o'r gweithgareddau yn y cynllun wedi cael eu hoedi yn sgil y sefyllfa COVID-19. Bu i hyn olygu bod oddeutu 5 allan o 28 cam gweithredu heb ei gwblhau ar ddiwedd y flwyddyn yn sgil blaenoriaethau'r pandemig. • Yn gynnar iawn yn ystod y cyfnod clo, gwelsom, fel y disgwyl, leihad yn y cyfraddau trosedd cyffredinol ar draws y Siroedd, erbyn dechrau mis Mehefin - roedd y cyfraddau trosedd cyffredinol o'u cymharu â'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol, wedi gostwng - gostyngiad o 24.6% yng Ngwynedd a 24.8% ym Môn. Roedd y gostyngiad ar draws y mathau o droseddau yn amrywio, a gwelwyd y gostyngiadau mwyaf mewn troseddau meddiangar a throseddau treisgar. • Ers hynny, mae cyfraddau trosedd wedi bod yn cropian yn araf yn ôl tuag at y lefelau disgwylidig. Mae Trais Domestig, oedd yn fater y bu i ni gadw

trosolwg agos arno yn ystod y cyfnod clo, am resymau amlwg - eto yn nesáu at niferoedd mwy disgwylidig o ran adrodd. Yn ffodus, fel y nodwyd yn flaenorol, rydym wedi medru cymryd mantais o'r arian ychwanegol o Lywodraeth Cymru er mwyn rhoi mwy o ddarpariaeth yn ei lle ar gyfer Trais Domestig ac anghenion trais rhywiol.

- Yn ystod y cyfnod hwn, bu i ni barhau â'r cyfarfodydd rhithiol a rhannu gwybodaeth yn gyson, er mwyn cadw'r cynllun ar y trywydd iawn cyn gymaint â phosib. Hefyd, bu i ni ddysgu o'r ymateb i'r cyfnod clo, lle y gwelwyd, yn ddi-os, arferion da ac arloesedd.
- Yn anffodus, drwy gydol y cyfnod adrodd hwn, roedd gan y bartneriaeth ddau Adolygiad Lladdiad Domestig (DHR) ar y gweill.
- Cafodd y cynllun Prevent (dyletswydd i roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth), ei ddiweddarau ar ôl derbyn y proffil lleol mwyaf diweddar gan yr Heddlu ym mis Rhagfyr. Mae tair rhan i'r cynllun, sy'n argymhellion i ymdrin â bygythiadau presennol, cyflawni elfennau statudol a thrafodaethol Prevent, a phartneriaeth amlasiantaethol.
- Cafodd Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol Gogledd Cymru ei lansio ym mis Mawrth 2020. Ers hynny, mae'r PDC wedi cefnogi cyflawniad y strategaeth yng Ngwynedd drwy fynychu'r cyfarfodydd rhanbarthol a gwybod y diweddaraf am flaenoriaethau a chamau perthnasol wrth iddynt godi.

Nid oes unrhyw amheuaeth bod y sefyllfa COVID-19 ddiweddar wedi bod, ac yn parhau i fod yn amser heriol i'r holl bartneriaid. Gweler isod enghreifftiau o sut y bodlonwyd rhai o'r heriau hyn.

- Yn anffodus, yng Ngwynedd, roedd angen Adolygiad Lladdiad Domestig (sy'n gyfrifoldeb ar y PDC), yn dilyn marwolaeth ym mis Rhagfyr 2019. Bu i'r Swyddfa Gartref roi peth rhyddid i bartneriaid 'oedi' y broses yn ystod y cyfnod clo. Fodd bynnag, roedd y partneriaid yn awyddus i wneud cynnydd, a chan ddefnyddio cyfarfodydd rhithiol yn lleol a chyda sefydliadau o'r ddwy Sir Arall ledled y Deyrnas Gyfunol, bu i ni lynu at yr amserlen, er gwaethaf y rhwystrau presennol.
- Yn gynnar yn ystod y cyfnod clo, cydnabuwyd fod angen bod yn effro o ran Trais Domestig. Mae dioddefwyr Trais Domestig risg uchel yn cael eu trafod mewn cyfarfod amlasiantaethol bob mis, fel mater o drefn safonol. Cytunodd partneriaid yn ogystal, y byddai cyfarfodydd wythnosol rhithiol yn cael eu cynnal, fel bod modd ymdrin â ffactorau risg uwch yn gyflym. Mae'r cyfarfodydd hyn yn parhau.
- Daeth bodloni anghenion ein dinasyddion digartref yn flaenoriaeth yn ystod y cyfnod clo, nid yn unig o ran darparu tŷ i bob un, ond hefyd o ran bodloni anghenion eraill y gallai fod ganddynt. Cynyddodd ein gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau y ddarpariaeth 'estyn allan' oedd ar gael, gan weithio ar y cyd â'r heddlu a gwasanaethau tai ar y ddaear, ac ymgysylltu â phob unigolyn. Roedd darparu ar gyfer yr anghenion hyn yn sicrhau eu bod

	<p>yn parhau i ymgysylltu â gwasanaethau ac o ganlyniad bu iddynt gael eu cyfeirio ac ymgysylltu o fewn gwasanaethau triniaethau mwy strwythuredig. Darparwyd gwerth ychwanegol drwy ddarparu bwyd poeth ac eitemau sylfaenol, ffonau symudol pan nad oedd ganddynt fynediad at un, a thalebau teithio fel bod modd iddynt fynd i apwyntiadau a derbyn cefnogaeth bellach pan fo angen.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hefyd, bu i'n gwasanaethau tai a gofal cymdeithasol gynyddu nifer y cyfarfodydd (rhithiol) â phartneriaid yn y trydydd sector/camdefnyddio sylweddau a Phrawf i drafod rheolaeth unigolion yn y gymuned oedd yn destun goruchwyliaeth gan y Gwasanaeth Prawf. Mynd i'r afael ag anghenion a rheoli risg oedd y nod, a hynny ar amser pan nad oedd cyswllt wyneb-yn-wyneb bob amser yn bosib. • Hefyd, wrth i gyfarfodydd goruchwyllo â chleientiaid yn y gymuned mewn swyddfeydd fynd yn anodd i'r gwasanaeth prawf (ynghyd â phob darparwr arall) yn ystod dyddiau cynnar y cyfnod clo, bu i Brawf a'r heddlu gryfhau eu harferion cydweithio, cynyddu'r defnydd o eiddo'r Heddlu ac ymweliadau carreg drws ar y cyd, er mwyn sicrhau y parhawyd i reoli risg yn ystod y cyfnod.
6.00	GWAITH YN YSTOD 2021-22
	<ul style="list-style-type: none"> • Yn sgil y pandemig, ni fu modd i'r PDC baratoi ar gyfer y cynllun newydd drwy'r dull arferol o gynnal gweithdy. Penderfynwyd y byddai holiadur yn gosod y sylfaen ar gyfer sefydlu'r cynllun am eleni, a hynny drwy ofyn i bartneriaid am wybodaeth ynghylch unrhyw weithgareddau neu brosiectau oedd ar y gweill oedd yn cysylltu â'r blaenoriaethau yn yr asesiad strategol. • Mae cynllun 2021-22, sydd wedi'i atodi, yn crynhoi mwyafrif y gweithgarwch ychwanegol y dymunai'r bartneriaeth ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r gweithgarwch yn cael ei fonitro a'i adrodd yn chwarterol i'r PDC, fel bod modd dod i gytundeb ar unrhyw weithgarwch adfer, os oes angen. Yn dilyn trafodaethau, roedd y cynllun am eleni hefyd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol o ran y deilliannau a fwriadwyd ar gyfer pob prosiect. • Hefyd, rhannwyd ffigyrau trosedd bob chwarter drwy adroddiad perfformiad a baratowyd gan ddadansoddwr yr Heddlu, fel bod modd trafod unrhyw dueddiadau a gweithgarwch ychwanegol. • Ar ôl trafod, bu i'r bartneriaeth nodi'r angen i ddiweddarau'r data chwarterol a ddarparwyd gan y dadansoddwr er mwyn hysbysu'r cyfarfodydd yn well; roedd y diwyg newydd yn ei le erbyn y cyfarfod ym mis Ebrill. Roedd hyn yn cynnwys naratif ychwanegol i egluro unrhyw newidiadau i'r dull o gofnodi data neu effaith achosion hanesyddol ar y data. • Yn anffodus, yn ystod y flwyddyn hon, mae'r bartneriaeth bellach wrthi'n

cynnal dau Adroddiad Lladdiad Domestig (DHR) yn dilyn marwolaethau a ddigwyddodd yn gynnar yn y flwyddyn, sy'n dod â'r cyfanswm i 4 DHR sydd ar y gweill yng Ngwynedd.

- Er gwaethaf yr anawsterau parhaus sy'n cael eu creu gan Covid, gall y Bartneriaeth adrodd ar nifer o ddatblygiadau cadarnhaol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon:
 - Yn yr haf, wrth weithio gyda'r Heddlu a'r OPCC, bu i ni gyflwyno bid i'r Gronfa Safer Streets 2 ar gyfer Hirael a Deiniol ym Mangor. Bu'r bid yn llwyddiannus, sy'n golygu bod gennym 41 camera cylch cyfyng (CCTV) ychwanegol, gwell golau stryd a pheynnau atal trosedd ar gyfer yr ardal. Mae'r prosiect yn bwrw yn ei flaen yn dda (mae'r broses gaffael wedi cychwyn/cyfarfod bwrdd prosiect misol/trefniadau cyhoedduswydd yn eu lle).
 - Mewn cyfarfodydd blaenorol, nododd y bartneriaeth yr angen i ddiweddarau grwpiau gweithredu lleol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain gan yr heddlu, ac erbyn hyn mae mwyafrif y grwpiau wedi'u sefydlu, gan gynnwys cyfarfod misol VARM (*Vulnerability Assessment/Risk Management*) Gwynedd, sy'n bartneriaeth amlasiantaethol sy'n ceisio lleihau'r galw ailadroddus, bregusrwydd a risg, drwy ddefnyddio dull cydlynus, sy'n ceisio datrys problemau.
 - Cafodd twyll ei nodi fel blaenoriaeth gan y bartneriaeth, a hynny o ran codi ymwybyddiaeth staff sy'n gweithio ag unigolion bregus. O ganlyniad, mae sesiynau hyfforddi gan yr Heddlu wedi cael eu trefnu ar gyfer mis Ionawr.
 - Yn dilyn y camau gweithredu a nodwyd yn Strategaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru 2021-24 o ran gwella mynediad i wybodaeth a help ar gyfer VAWDASV (Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a thrais Rhywiol), mae'r dudalen Diogelwch Cymunedol ar wefan y Cyngor yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth ynghylch yr adnoddau cefnogi lleol a chenedlaethol ar gyfer pob math o ddiodefwr. Mae hyn yn cynnwys dolen i Linell Gymorth Byw Heb Ofn, sydd hefyd yn cael ei hyrwyddo yn rheolaidd ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol a thudalennau staff y Cyngor.
 - Mae'r PDC wedi cael ei hysbysu ynghylch dyletswyddau newydd megis Protect a Thrais Difrifol ac mae wrthi'n paratoi ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys mynychu gweminarau cenedlaethol a rhannu gwybodaeth. Rhoddodd yr Heddlu gyflwyniad i aelodau am y Ddyletswydd Trais Difrifol yn gynharach yn y flwyddyn, ac mae cyflwyniad pellach o ran yr Hwb Dealluswydd newydd, fydd yn cadw data gogledd Cymru ac sydd wrthi'n cael ei ddatblygu, wedi'i drefnu ar gyfer mis Ionawr.
 - Mae'r PDC wedi adlewyrchu ar yr hyfforddiant Prevent presennol sydd ar gael, ac mae'n aros i weld beth sy'n bosib gyda'r pecyn newydd gan y Swyddfa Gartref. Mae'r llwyfan hyfforddi newydd wrthi'n cael ei brofi cyn

	<p>iddo gael ei gyflwyno'n raddol.</p> <p>Gwaith ar y gweill:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Parhau i weithredu prosiectau lleol sydd wedi'u hadnabod yn y cynllun ar gyfer Ch3 - drwy'r broses fonitro. • Ymateb i'r Proffil Cymunedol y bu i ni ei dderbyn yn ddiweddar gan yr Heddlu. Mae hyn yn cynnwys datblygu grŵp SOC (Troseddau Cyfundrefnol a Difrifol) amlasiantaethol dan arweiniad yr Heddlu. • Parhau i gefnogi cynnydd y Gronfa Safer Streets 2 ym Mangor, gan weithio ar y cyd â'r adran Priffyrdd a'r Heddlu. • Parhau i gefnogi gweithrediad y cynllun alcohol rhanbarthol yn y ddau Awdurdod. • Mae'r bartneriaeth yn ymwybodol y dylem, ar yr adeg briodol, fynd ati i asesu'r newidiadau yn ein cymunedau yn sgil y pandemig a'r ffordd mae sefydliadau wedi bod angen newid er mwyn bodloni angen y cymunedau. Ar hyn o bryd, mae newidiadau a fflwcs yn arferol, felly efallai bod angen i'r gwaith hwn fynd rhagddo nawr, ond mae'n debygol o gymryd cyfnod hwy. Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau yn parhau i fod yn ymatebol i newidiadau.
7.00	ARGYMHELLION
7.01	Nodi cynnwys yr adroddiad a'r dogfennau atodol, a nodi p'un a yw'r Pwyllgor Craffu yn cefnogi blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol.
8.00	ATODIADAU
8.01	<ol style="list-style-type: none"> 1. Cynllun 2020-21 2. Cynllun 2021-22